Cofnodion Cyfarfod o'r **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd yn hybrid ar
Ddydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022

Yn bresennol: Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Gethin Davies, Marc Davies, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Chris James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein a Carl Worrall

Hefyd yn Bresennol:- y Cynghorydd Wyn Evans

Hefyd yn bresennol: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold - Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu), Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu Gogledd, Mr Sam Pugh – Swyddog Rheoli Datblygu – De, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Patricia Armstrong, Rheolwr Corfforaethol – Cyfreithiol a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:00am-11:20am)

1 **Personol**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Ifan Davies am ei anallu i fynychu'r cyfarfod.

3 **Datgan Buddiant Personol a/neu Fuddiant sy'n Rhagfarnu**
Dim.

4 **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022**
PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022 yn rhai cywir

Materion sy'n codi
Dim.

5 **Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**
Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio ar y ceisiadau cynllunio a ganlyn a ystyriwyd mewn cyfarfod blaenorol ac yr oedd angen eu hystyried ymhellach gan y Pwyllgor:-

A210387 Annedd fforddiadwy arfaethedig i gynnwys gosod mynedfa i gerbydau a chyfleuster parod i drin carthion, Tir yn gyfagos i Lownant, Talsarn

GWRTHOD y cais gan y byddai'n arwain at annedd fforddiadwy newydd mewn lleoliad yng nghefn gwlad agored na ellir ei gyfiawnhau a lleoliad anghynaliadwy yn groes i bolisi cynllunio cenedlaethol a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006) a'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, polisïau S01 ac S04.

A220202 Annedd newydd yn lle un wag, Tir ym Mhantyffynnon Isaf, Ysbyty Ystwyth

GOHIRIO gwneud penderfyniad ar y cais er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried y cais diweddar a gyflwynwyd ar gyfer trac sy'n arwain at safle'r cais, gan fod y fynedfa ar hyn o bryd

yn gwbl anaddas, annigonol, ac o bosibl yn beryglus, mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio wedi'i awdurdodi i GYMERADWYO'r cais, os oedd y cais am y trac yn dderbyniol, ac i gynrychioli'r cais i'r pwyllgor os nad oedd.

Roedd yr aelodau o'r farn y gellid caniatáu'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

- Roedd y cais yn unol ag LU09; oherwydd yn eu barn nhw nad oedd yr eiddo wedi dadfeilio fel nad oedd bellach yn edrych yn sylweddol fel annedd, ac oherwydd bod modd ei adnewyddu
- Cefnogwyd y cais ar y sail bod y cais am y trac yn cael ei ganiatáu

---

6 **Ceisiadau Statudol, Awdurdod Lleol, Hysbysebion a Datblygu**
Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ar geisiadau cynllunio datblygu, hysbysebu; statudol a'r awdurdod lleol:-

Anerchodd Ms Glesni Phillips y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A220511Codi annedd fforddiadwy, Lleine, Ferwig, Aberteifi

CYFEIRIO'r cais at y Panel Arolygu Safleoedd yn unol â pharagraff dau a phump y meini prawf a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

A220578 Estyniad llawr gwaelod ar gyfer defnydd symudedd, Sycharth, Felin-fach, Llanbedr Pont Steffan

CYMERADWYO'r cais yn destun amodau.

---

7 **Ceisiadau Cynllunio yr ymdriniwyd â hwy gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio:-**
PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio yr ymdriniwyd â hwy yn Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio.

8 **Apeliadau Cynllunio**
CYTUNWYD nodi'r apeliadau cynllunio a gafwyd.

Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2023

Cadeirydd:-_____

Dyddiad:_____